

LLAIS

Eich llais chi mewn iechyd a gofal | Your voice in health and social care

# CYNLLUN BLYNYDDOL 2025-2026

# Fformatau Hygyrch

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni drwy ymholiadau@llaiscymru.org

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi trwy gysylltu â'n swyddfa.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud | 5 |
| Ein gweledigaeth strategol a blaenoriaethau | 5 |
| Yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym yn bwysig iddyn nhw | 8 |
| Ein gwaith bob dydd | 10 |
| Ymgysylltu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol cryf | 11 |
| Cynrychioliadau | 12 |
| Eiriolaeth cwynion ac ymholiadau | 13 |
| Cyfathrebu a hyrwyddo | 14 |
| Cyflawni ein cyfrifoldebau ehangach | 15 |
| Ein rhaglen waith 2025–2026 | 16 |
| Gyrru sgwrs genedlaethol am ddyfodol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol | 16 |
| Pwyso am wasanaethau sy'n bodloni anghenion pawb | 18 |
| Cydweithio'n well | 20 |
| Helpu pobl a gwasanaethau i ddefnyddio technoleg mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw | 21 |
| Tyfu a gwella fel sefydliad | 22 |
| Meddyliau terfynol | 24 |
| Gwybodaeth cyswllt | 25 |

# Cyflwyniad

**Mae'r cynllun hwn, blwyddyn 2 o'n strategaeth 3 blynedd, yn nodi'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd eleni i'n helpu i gyflawni'r hyn y mae pobl ledled Cymru wedi'i ddweud wrthym sydd bwysicaf iddynt.**

Bob dydd, rydyn ni'n clywed profiadau go iawn – beth sy'n gweithio'n dda ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, beth sydd ddim, a beth allai wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl. Mae eu lleisiau yn siapio popeth a wnawn.

Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol dan bwysau aruthrol. Mae pobl yn wynebu arosiadau hir am driniaeth, yn brwydro i gael mynediad at y gofal priodol pan fydd ei angen arnynt, ac yn teimlo nad yw'r system bob amser yn gweithio iddynt.

Mae gwasanaethau dan bwysau, ac mae staff yn gwneud eu gorau o dan amgylchiadau anodd, ond mae'r hollt yn dangos. Rhaid i ddiogelwch a hawliau pobl mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol barhau i fod yn brif flaenoriaeth — a rhaid i wasanaethau gael eu cynllunio i ddiwallu anghenion pobl mewn ffordd sy'n ymateb i'r hyn sydd bwysicaf iddynt.

Wrth i ni ddechrau ail flwyddyn ein Cynllun Strategol 3 blynedd, byddwn yn canolbwyntio ar ddyfnhau ein heffaith. Mae hynny'n golygu defnyddio'r hyn a glywn mewn cymunedau lleol, ar draws rhanbarthau, ac yn genedlaethol i wthio am welliannau gwirioneddol.

Byddwn yn adeiladu ar y sgyrsiau a'r gwaith rydym wedi'i ddechrau, yn cryfhau partneriaethau, ac yn gweithio gyda phobl a gwasanaethau fel bod ein profiadau bywyd yn ysgogi newid mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

Eleni, byddwn yn creu mwy o ffyrdd i bobl gael dweud eu dweud, yn enwedig y rhai nad yw eu lleisiau bob amser wedi cael eu clywed. Byddwn yn ymhelaethu ar yr hyn a glywn fel bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn ymateb iddo, a byddwn yn cadw golwg ar yr hyn sy'n newid, yn dathlu cynnydd lle mae'n digwydd ac yn herio lle nad yw pethau'n gwella'n ddigon cyflym.

Gwyddom fod iechyd a gofal cymdeithasol yn system enfawr, ac ni allwn fynd i'r afael â phopeth ar unwaith. Ond drwy ganolbwyntio ar ble y gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf i bobl Cymru, byddwn yn parhau i symud ymlaen, gan ddod â phobl ynghyd, herio lle bo angen, a helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n gweithio'n well i'r rhai sy'n dibynnu arnynt.



# Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Rydym yn gorff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu ein bod yn cael ein cyllid gan Lywodraeth Cymru, ond rydym yn weithredol annibynnol, felly gallwn ddewis yr hyn yr ydym yn gweithio arno, sut, a gyda phwy yr ydym yn gweithio.

Cawsom ein sefydlu ym mis Ebrill 2023 ac rydym yn gweithio ar draws pob rhan o Gymru. Ein Bwrdd sy'n gosod ein cyfeiriad strategol. Mae'n sicrhau ein bod ar y trywydd iawn i wneud yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud – yn y ffordd sy'n diwallu anghenion pobl orau.

# Ein gweledigaeth strategol a blaenoriaethau

Credwn mewn Cymru iachach. System iechyd a gofal cymdeithasol lle mae pobl yn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt mewn ffordd sy'n gweithio orau iddynt ac sy'n barod ar gyfer beth bynnag a ddaw yn y dyfodol.

# Ein cenhadaeth

Rydym yn ei gwneud yn genhadaeth i wrando'n ofalus, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol ac i gynyddu effaith lleisiau pobl wrth lunio gwasanaethau. Rydym yn gweithio gyda phobl Cymru i roi llais cryfach i chi a chynrychioli eich diddordebau o ran iechyd a gofal cymdeithasol.

# Ein blaenoriaethau strategol

**Mae gan ein cynllun strategaeth 2024–2027 5 maes blaenoriaeth i'n helpu i gyflawni ein gweledigaeth a'n cenhadaeth. Y rhain yw:**

| | |
|---|---|
| 1 | Gyrru sgwrs genedlaethol am ddyfodol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol |
| 2 | Gwthio am wasanaethau sy'n bodloni anghenion |
| 3 | Cydweithio'n well |
| 4 | Helpu pobl a gwasanaethau i ddefnyddio technoleg mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw |
| 5 | Tyfu a gwella fel sefydliad |




# Yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym sy'n bwysig iddyn nhw

Bob dydd, mae pobl yn rhannu eu profiadau gyda ni, ac rydym yn gwrando.

Clywn beth sy'n gweithio'n dda a'r hyn y mae pobl yn ei werthfawrogi am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae pobl eisiau gwasanaethau sy'n hygyrch, yn dosturiol ac yn ymatebol i'w hanghenion a gwasanaethau sy'n cyfathrebu'n dda ac yn gweithio gyda'i gilydd ar eu cyfer.

Pan fyddwn yn clywed am wasanaethau y mae pobl yn eu hoffi oherwydd sut y cânt eu darparu, byddwn yn eu rhannu'n weithredol trwy ein rhwydweithiau. Byddwn yn annog y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i fabwysiadu neu addasu'r hyn sy'n gweithio i bobl mewn un lle er mwyn gwella gofal ledled Cymru.

**Mae rhai o'r pethau rydyn ni'n clywed amdanyn nhw amlaf yn cynnwys:**

### Iechyd

Mynediad at wasanaethau meddygon teulu a deintyddol, arosiadau hir am ddiagnosis a thriniaeth, heriau o ran cymorth iechyd meddwl, bylchau mewn gofal mamolaeth, ac anawsterau gyda gofal brys.

### Gofal cymdeithasol

Y pwysau ar ofalwyr di-dâl, arosiadau hir am asesiadau a lleoliadau gofal cymdeithasol, mynediad anghyson at weithwyr cymdeithasol, a'r angen am well cymorth seibiant.

### Ar draws y ddau

Diffyg gweithio cydgysylltiedig rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, anawsterau wrth gael mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd gwledig, rhwystrau trafnidiaeth, a'r angen am gymorth mwy cydgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Gwyddom fod y materion hyn yn bwysig. Mae iechyd a gofal cymdeithasol yn enfawr, ac ni allwn weithio ar bopeth ar unwaith. Dyna pam yr ydym yn canolbwyntio ein hymdrechion lle y gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf: o ymgysylltu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol cryf, dylanwadu ar bolisi cenedlaethol a rhanbarthol, a hyrwyddo tryloywder a chynhwysiant ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.






# Ein gwaith bob dydd

Ein rhwymedigaethau cyfreithiol, cyfrifoldebau, ac ymrwymiadau dyddiol sy'n ein cefnogi i gyflawni ein cenhadaeth yw:

**Ymgysylltu:** Rydym yn ymgysylltu ac yn gwrando ar bobl am eu profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol. Rydyn ni'n ceisio cwrdd â chymunedau yn y lleoedd sy'n gweithio orau iddyn nhw.

**Cynrychioliadau:** Rydym yn cynrychioli'r farn a glywni'r rhai sy'n gwneud penderfyniadauym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ôl y gyfraith, rhaid iddynt roi gwybod i ni beth maent yn bwriadu ei wneud â'r safbwyntiau a'r profiadau yr ydym yn eu rhannu.

**Eiriolaeth cwynion:** Rydym yn helpu ac yn cefnogi pobl pan fydd pethau'n mynd o chwith, a'u bod am wneud cwyn drwy y broses gwyno ffurfiol y GIGneu ei awdurdod lleol. Rydym hefyd yn darparu cyngor lle y gallwn i'r rhai nad ydynt wedi dechrau'r broses hon.

**Cyfathrebu a hyrwyddo:** Byddwn yn sicrhau bod pobl yn gwybod am ein gwasanaethaufel bod mwy o bobl yn gallu dweudeu dweud. Mae gan y cyrff iechyd a'r awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i hyrwyddo ein gwasanaethau hefyd.




# Ymgysylltu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol cryf

**Ymgysylltu Llais lleol**
Cynnal sgyrsiau â ffocws mewn cymunedau, yn enwedig gyda grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol; felly, mae eu lleisiau yn helpu i lunio blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

**Fforymau rhanbarthol**
Dod â phobl a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau at ei gilydd ledled Cymru i rannu profiadau byw o iechyd a gofal cymdeithasol fel y gellir defnyddio'r rhain i sicrhau newid a llywio gwasanaethau'r dyfodol.

**Ymgysylltu cenedlaethol**
Rydyn ni'n mynd lle rydych chi, er mwyn i chi allu rhannu eich barn a'ch profiadau gyda ni am iechyd a gofal cymdeithasol. Boed hynny mewn digwyddiadau cenedlaethol fel y Sioe Frenhinol, yr Eisteddfod, neu'r Urdd neu sioeau a digwyddiadau rhanbarthol, byddwn yno i glywed gennych.

**Rhannu'r hyn a glywn â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau**
Rydym yn rhannu'r hyn a glywn yn rheolaidd â chymunedau, cynllunwyr a darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol, llunwyr polisïau a phartneriaid eraill fel y gellir gwneud gwelliannau.



# Cynrychioliadau (dylanwadu ar benderfyniadau)

**Gwrando ar anghenion lleol a gweithredu arnynt**
Byddwn yn mynd â'r hyn a ddywedwch wrthym trwy ein hymgysylltu i'r gweithgorau priodol, y byrddau, a'r mannau gwneud penderfyniadau i sicrhau bod profiadau go iawn yn llywio newid. Byddwn yn gwthio am welliannau, yn olrhain cynnydd, ac yn onest ynghylch lle mae pethau'n gwella a lle nad ydynt.

**Cefnogi lleisiau pobl i lunio polisi a deddfu**
Byddwn yn rhannu'r hyn rydym yn ei glywed gan bobl ledled Cymru ac yn dod â phrofiadau gwirioneddol pobl i mewn i'n hymatebion i ymgynghoriadau cenedlaethol a rhanbarthol, datblygu polisïau a strategaethau newydd, a gweithio gyda phwyllgorau'r Senedd (a darparu tystiolaeth iddynt).

**Dylanwadu ar newidiadau i wasanaethau**
Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn newid yn gyson, ond nid yw'r bobl yr effeithir arnynt bob amser yn cymryd cymaint o ran ag y dylent fod. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod gwasanaethau'n rhoi gwybod i bobl beth sy'n newid, pam mae'n digwydd, a sut y gallant ddweud eu dweud.

Ni fyddwn yn ymwneud â phob newid gwasanaeth, ond byddwn yn cymryd rhan pan welwn benderfyniadau mawr yn cael eu gwneud neu pan fydd newid yn cael effaith fawr ar bobl a chymunedau.



# Eiriolaeth cwynion ac ymholiadau

**Ein gwasanaeth eiriolaeth ac ymholiadau cwynion**
Byddwn yn parhau i wella ein cymorth i bobl sy'n dod o hyd i'w ffordd drwy brosesau cwyno, gan eu helpu i gael eu clywed a chael canlyniadau teg. Byddwn yn cyflwyno eiriolwr cwynion arbenigol newydd, a ariennir gan Tenovus, sy'n canolbwyntio'n benodol ar gefnogi pobl sy'n byw gyda chanser gyda'u cwynion.

**Ymholiadau**
Byddwn yn parhau i helpu pobl nad oes ganddynt gŵyn ffurfiol ond sydd angen cymorth neu arweiniad ar ble i ddod o hyd i gymorth neu wasanaethau.

**Parhau i wneud atgyfeiriadau diogelwch a gwarchod cleifion**
Os byddwn yn dod o hyd i rywbeth sydd, yn ein barn ni, yn risg i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd neu gymdeithasol, byddwn yn cyfeirio'r mater at y sefydliad priodol er mwyn iddynt allu ymyrryd a helpu i gadw pobl yn ddiogel.



# Cyfathrebu a hyrwyddo

**Cyfathrebu'n gliriach ac yn fwy effeithiol**
Byddwn yn ei gwneud yn haws i bobl ddeall pwy ydym ni, beth rydym yn ei wneud, a sut y gallant gymryd rhan.

Trwy gyrraedd ein cymunedau'n ddyfnach, adrodd mwy o straeon bywyd go iawn, a gwneud yn siŵr bod ein negeseuon yn glir ac yn hygyrch, byddwn yn codi ymwybyddiaeth, yn meithrin ymddiriedaeth, ac yn cynyddu ymgysylltiad y cyhoedd. Ein 4 neges allweddol ar gyfer eleni yw:

- Ni yw llais annibynnol pobl a chymunedau yr ymddiriedir ynddynt
- Rydyn ni'n gwneud i newid ddigwydd
- Rydym yn llais cenedlaethol gyda chyrhaeddiad lleol
- Rydym yn cysylltu cymunedau â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau

**Hyrwyddo**
Eleni, rydym yn canolbwyntio ar hybu ein cysylltiadau cyhoeddus a hyrwyddo i'w gwneud yn haws i bobl wybod beth rydym yn ei wneud a'r gwahaniaeth y mae'n ei wneud.

Drwy gryfhau sut rydym yn gweithio gyda'r cyfryngau a chyda'n partneriaid ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, byddwn yn gwella ein hamlygrwydd ac yn sbarduno sgyrsiau am wasanaethau ledled Cymru. Ein nod yw tynnu sylw at yr hyn rydym yn ei wneud trwy adrodd straeon sy'n cael effaith ac ysbrydoli newid cadarnhaol i amlygu ac ymateb yn well i'r hyn rydych chi'n ei ddweud wrthym.



# Cyflawni ein cyfrifoldebau ehangach

Yn ogystal â'n gwaith o ddydd i ddydd, mae'n bwysig hefyd ein bod yn dangos i bobl sut rydym yn cyflawni ein cyfrifoldebau cyfreithiol ehangach a chyfrifoldebau adrodd cyhoeddus eraill. Mae hyn yn cynnwys pethau fel ein:

- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, sy'n cynnwys ein Datganiad Llywodraethu, Adroddiad Tâl a Staff, Adroddiad Perfformiad ac Adroddiad Datganiad Ariannol
- Datganiad Cydraddoldeb Blynyddol
- Adroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau
- Adroddiad Safonau Iaith Blynyddol
- Strategaeth 3–i–5 mlynedd
- Cynllun Busnes Blynyddol (y ddogfen hon)
- Adroddiad Sero Net
- Datganiad Hygyrchedd

# Ein rhaglen waith 2025–2026

Yn ogystal â'n gwaith bob dydd, byddwn yn canolbwyntio ar ystod o weithgareddau sy'n helpu i gefnogi ein 5 nod strategol. Maent yn ymateb i'r pethau a glywn am yr hyn sydd bwysicaf i'n pobl a'n cymunedau ledled Cymru am eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn 2025–2026, y rhain yw:



## 01. Gyrru sgwrs genedlaethol am ddyfodol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

Gweithgareddau sydd eisoes ar y gweill ac a fydd yn parhau i 2025–2026:

**Datganiadau sefyllfa a grwpiau gweithredu**
Dyma le rydym yn cyhoeddi ein safbwynt ar faterion y gwyddom amdanynt, megis gofal brys, deintyddiaeth, materion sy'n wynebu gofalwyr di-dâl, neu amseroedd aros am asesiadau niwroddatblygiadol.

Byddwn yn cyflwyno sylwadau ac yn annog sefydliadau i weithredu drwy ddod â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau at ei gilydd i archwilio'r materion, lledaenu'r hyn sy'n gweithio'n dda ac ysgogi gwelliant yn yr agweddau sydd angen eu gwella.

**Cydweithrediad 'Cerdded yn Eich Esgidiau' gyda Chomisiwn Bevan**
Gan adeiladu ar ein gwaith ar y cyd o amgylch yr ymgyrch Rheolau Gwirion, byddwn yn dod o hyd i ffyrdd eraill o gyfuno profiadau pobl yn y byd go iawn â datrys problemau ymarferol i greu gwelliannau ystyrlon i wasanaethau.

# Gweithgareddau sy'n newydd yn 2025–2026

## Ein prosiectau ymgysylltu Cymru gyfan

Drwy wrando ar brofiadau pobl, byddwn yn deall yn well beth sy'n gweithio'n dda a lle mae angen i bethau wella i bawb. Bydd y prosiectau hyn yn tynnu sylw at yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda, yn rhannu straeon bywyd go iawn, ac yn darparu mewnwelediadau i helpu i lunio sut mae ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu cynllunio a'u darparu.

### Archwilio hawliau, disgwyliadau, a chyfrifoldebau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Byddwn yn gweithio ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth a meithrin dealltwriaeth o hawliau pobl ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, archwilio'r hyn y mae pobl ei eisiau ac yn ei ddisgwyl gan eu gwasanaethau wrth symud ymlaen a deall beth sydd ei angen ar bobl i ddefnyddio gwasanaethau'n gyfrifol.

### Cael gofal a chymorth drwy ganolfannau gofal cymunedol integredig

Bydd y prosiect hwn yn archwilio sut mae pobl yn cael profiad o ofal o fewn y System Gofal Cymunedol Integredig (SGCI), gan ganolbwyntio ar ba mor dda y mae canolfannau lleol a gwasanaethau cydgysylltiedig yn gweithio i unigolion a chymunedau. Bydd yn archwilio sut mae pobl yn symud drwy'r system, gan edrych ar yr hyn sy'n helpu neu'n rhwystro mynediad at ofal – boed hynny'n teithio, yn opsiynau digidol, neu'n argaeledd gwasanaethau lleol.

Bydd y prosiect yn casglu profiadau bywyd go iawn i roi mewnwelediad i ba mor effeithiol y mae canolfannau gofal integredig yn diwallu anghenion pobl.

### Digwyddiad lleisiau dros newid

Bydd penderfynwyr iechyd a gofal cymdeithasol, staff rheng flaen, sefydliadau cynrychioli a gwella a grwpiau cymunedol yn gwrando ar brofiadau bywyd go iawn o iechyd a gofal cymdeithasol ac yn eu trafod. Bydd y digwyddiad yn amlygu'r heriau y mae pobl yn eu hwynebu, yn hyrwyddo'r hyn sy'n gweithio'n dda, ac yn eiriol dros ymrwymiad i weithredu lle mae angen newidiadau ar gyfer y dyfodol.

# Ein rhaglen waith 2025–2026

## 02. Pwyso am wasanaethau sy'n bodloni anghenion pawb

Gweithgareddau sydd eisoes ar y gweill ac a fydd yn parhau i 2025–2026:

**Llywio proses gwynion newydd y GIG**
Mae newidiadau mawr yn dod i'r ffordd yr ymdrinnir â chwynion pobl am y GIG. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a chyrff y GIG i helpu i lunio'r trefniadau newydd , a phan wneir y newidiadau, byddwn yn addasu sut rydym yn cefnogi pobl i wneud pethau'n haws.

**Gwreiddio gwrth-hiliaeth yn ein gwaith**
Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau a arweinir gan leiafrifoedd ethnig, y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol i helpu i sicrhau bod lleisiau amrywiol yn llywio gwelliannau i bolisïau a gwasanaethau, gan fynd i'r afael ag anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig â hil mewn iechyd a gofal. Byddwn yn parhau i wneud newidiadau o fewn ein sefydliad i ymgorffori egwyddorion gwrth-hiliaeth ym mhopeth a wnawn.

**Lleisiau gofal cymdeithasol**
Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn aml yn llai gweladwy na gwasanaethau iechyd, ond maent yr un mor bwysig. Byddwn yn creu mwy o ffyrdd o glywed gan bobl sydd angen gwasanaethau gofal cymdeithasol fel y gallwn rannu eu profiadau gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a gwthio am newidiadau lle bo angen.



# Prosiectau neu fentrau newydd ar gyfer 2025–2026



**Dysgu o gwynion i wella gwasanaethau**

Gan weithio gyda rheoleiddion, arolygiaethau, gwasanaethau eirioli a chyrff sy'n delio â chwynion, byddwn yn rhoi ffocws cryf ar ddysgu o gwynion i ysgogi newid ym mhob rhan o'r system iechyd a gofal cymdeithasol – fel bod profiad pobl yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol drwy wneud pethau'n well i bawb.

**Uwchgynadleddau iechyd a gofal cymdeithasol rhanbarthol**

Byddwn yn dod â chyrff y GIG, awdurdodau lleol, darparwyr gofal cymdeithasol, sefydliadau trydydd sector, a chynrychiolwyr y llywodraeth ynghyd i fynd i'r afael â heriau a rennir a datblygu atebion cydgysylltiedig sy'n gwella gwasanaethau pobl.

**Partneriaeth Lleisiau Mamolaeth a Newyddenedigol Cymru**

Ni fydd yr 'asiantaeth letyol' ar gyfer Partneriaeth Lleisiau Mamolaeth a Newyddenedigol Cymru. Byddwn yn dod â'r cadeiryddion o bob un o'r grwpiau mamolaeth a newyddenedigol lleol ynghyd i rannu'r hyn sy'n digwydd ledled Cymru a chymryd camau gyda'i gilydd i lywio ein gwasanaethau mamolaeth a dylanwadu arnynt.

# Ein rhaglen waith 2025–2026



## 03. Cydweithio'n well

Gweithgareddau ar y gweill a fydd yn parhau yn 2025–2026:

**Parhau i ddatblygu ein rhaglen plant a phobl ifanc**
Byddwn yn meithrin ac yn cryfhau perthnasoedd â sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i sicrhau bod eu lleisiau'n llywio'r gwasanaethau y maent yn dibynnu arnynt, gan sicrhau bod lleisiau iau yn cael eu clywed ar y pethau sydd bwysicaf iddynt.

Gweithgareddau sy'n newydd ar gyfer 2025–2026:

**Cryfhau ymgysylltiad cymunedol**
Byddwn yn dyfnhau ein hymgysylltiad â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned a grwpiau cynrychioliadol. Mae hyn yn cynnwys grwpiau fel fforymau gofalwyr, grwpiau cyfranogiad cleifion meddygon teulu a grwpiau defnyddwyr gwasanaeth, i ddeall beth sydd ar waith i chi gael dweud eich dweud, beth sy'n gweithio a lle mae angen newid.

# Ein rhaglen waith 2025–2026

## 04. Helpu pobl a gwasanaethau i ddefnyddio technoleg mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw

Gweithgareddau sydd eisoes ar y gweill ac a fydd yn parhau i 2025–2026:

### Hyrwyddo cynhwysiant digidol

Gan barhau i fod yn rhan o Gynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru a chydweithio â phartneriaid fel Iechyd a Gofal Digidol Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru, byddwn yn cynrychioli eich barn ar sut mae offer iechyd a gofal cymdeithasol digidol yn cael eu datblygu gan ystyried anghenion defnyddwyr.


Gweithgareddau sy'n newydd ar gyfer 2025–2026:

### Tryloywder data iechyd a gofal cymdeithasol

Byddwn yn gweithredu i helpu i sicrhau bod sefydliadau'n gwneud data iechyd a gofal cymdeithasol yn fwy tryloyw fel y gall pobl a chymunedau ddeall yn well sut mae ein gwasanaethau'n perfformio a gwthio am welliannau lle bynnag y bo angen.

### DA(deallusrwydd artiffisial) a defnyddio data ar gyfer gwelliannau ac ymgysylltu

Byddwn yn darganfod mwy am breifatrwydd data a moeseg. Byddwn yn rhannu'r hyn a glywn gan ddefnyddwyr gwasanaethau am ddefnyddio eu data, a byddwn yn chwarae ein rhan mewn cynnwys cymunedau mewn trafodaethau am DA a thechnolegau newydd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.



# Ein rhaglen waith 2025–2026

## 05. Tyfu a gwella fel sefydliad

Gweithgareddau sydd eisoes ar y gweill ac a fydd yn parhau i 2025–2026:

**Cryfhau ein rhaglen wirfoddoli**
Mae gwirfoddolwyr wrth wraidd yr hyn a wnawn. Byddwn yn tyfu ac yn amrywio ein rhwydwaith gwirfoddolwyr, gan annog mwy o bobl ifanc, siaradwyr Cymraeg, a'r rhai sydd â phrofiad o fyw i gymryd rhan. Trwy wella dysgu, mentora a chydnabyddiaeth, byddwn yn gweithio i sicrhau bod ein gwirfoddolwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u grymuso i helpu i siapio newid gwirioneddol.

**Gwella sut rydym yn gweithio**
Byddwn yn parhau i ddatblygu ein ffyrdd o weithio, o adolygu ein polisïau a'n prosesau i'r ffordd yr ydym yn trefnu ein hunain. Bydd hyn yn ein helpu i fod yn fwy effeithlon, gweithio'n gallach, a chanolbwyntio ar gael yr effaith fwyaf posibl.

**Cyflawni ein hymrwymiadau i degwch, amrywiaeth a chynhwysiant**
Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i gyflawni ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, gan gynnwys ein hymrwymiadau yng Nghynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru, LHDTC+, a chynlluniau pobl anabl.

Mae hyn yn golygu gwella sut rydym yn casglu ac yn defnyddio data i ddeall yn well ac ymateb i anghenion y bobl rydym yn gweithio gyda nhw, yn ogystal â'n staff a'n gwirfoddolwyr.



# Gweithgareddau sy'n newydd ar gyfer 2025–2026

## Gwneud yn siŵr ein bod ni yn y lleoedd iawn

Byddwn yn cyflwyno strategaeth lleoliadau i wneud yn siŵr ein bod ni'n cael ein trefnu mewn ffordd sy'n gweithio orau i'r bobl a'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu. Bydd hyn yn cefnogi ymgysylltiad cymunedol mwy hygyrch ac effeithiol, ac yn darparu ein gwasanaethau eiriolaeth cwynion yn y ffordd orau bosibl.

## Adeiladu diwylliant cefnogol a chynhwysol

Rydyn ni eisiau i Llais fod yn fan lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn cael gwrandawiad, ac yn gallu gwneud y gwahaniaeth mwyaf i bob un ohonom sy'n byw yng Nghymru.

Bydd ein cynllun newid diwylliannol yn ein helpu i gryfhau atebolrwydd, gwneud penderfyniadau ac arweinyddiaeth. Byddwn yn hyrwyddo cydweithredu, yn cydnabod cyfraniadau cadarnhaol, ac yn sicrhau bod Llais yn sefydliad lle mae pawb yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i ysgogi newid.

## Byddwn yn gwella tryloywder a hygyrchedd

Drwy ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan yn ein penderfyniadau a chryfhau sut rydym yn eu cyfathrebu. Byddwn yn cynnal cyfarfodydd Bwrdd mwy hygyrch ac yn rhannu gwybodaeth mewn ffyrdd cliriach a mwy deniadol. Mae hyn yn cynnwys archwilio sut y gall offer digidol hwyluso mwy o gyfranogiad gan y cyhoedd a chryfhau atebolrwydd, gan siapio yn y pen draw sut rydym yn gweithio a dylanwadu ar newid.



# Meddyliau terfynol

Rydym yn deall bod newid yn cymryd amser. Trwy weithio o fewn ein cymunedau a gyda'n partneriaid, byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod eich lleisiau'n cael eu clywed a'u gweithredu yn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Byddwn yn canolbwyntio ar wneud y pethau sy'n gwneud gwahaniaeth ystyrlon i bobl, yn enwedig y rhai ohonom nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml.

Boed yn gwella sut mae pobl yn cael eu clywed, yn gwella hygyrchedd i offer digidol, neu'n cryfhau partneriaethau traws-sector, ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain – mae eich lleisiau a'ch syniadau yn hollbwysig.

**Os ydych chi eisiau helpu i lunio dyfodol iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, rydyn ni yma i wrando.**



# Gwybodaeth cyswllt

**Caerdydd a Bro Morgannwg**
Yn cwmpasu Caerdydd a Bro Morgannwg.
Ffon: 029 2075 0112
Ebost: ymholiadaucaerdyddarfro@llaiscymru.org

**Cwm Taf Morgannwg**
Yn cwmpasu Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.
Ffon: 01443 405830
Ebost: ymholiadaucwmtafmorgannwg@llaiscymru.org

**Gwent**
Yn cwmpasu Casnewydd, Caerffili, Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Thorfaen.
Ffon: 01633 838516
Ebost: ymholiadaugwent@llaiscymru.org

**Gorllewin Cymru**
Yn cwmpasu Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.
Ffon: 01646 697610
Ebost: ymholiadaugorllewincymru@llaiscymru.org

**Castell Nedd Port Talbot ac Abertawe**
Yn cwmpasu Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.
Ffon: 01639 683490
Ebost: ymholiadau.cnptacabertawe@llaiscymru.org

**Gogledd Cymru**
Yn cwmpasu Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Wrecsam, Conwy, Ynys Môn a Gwynedd.
Ffon: 01978 356178 / 01248 679284
Ebost: ymholiadaugogleddcymru@llaiscymru.org

**Powys**
Yn cwmpasu Sir Drefaldwyn, Sir Frycheiniog a Sir Faesyfed.
Ffon: 01874 624206/01686 627632
Ebost: ymholiadaupowys@llaiscymru.org

02920 235 558
ymholiadau@llaiscymru.org
www.llaiscymru.org

**Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn Braille, Hawdd ei Ddarllen neu mewn iaith arall, cysylltwch â'ch tîm Llais**